

# Arolwg Heintiadau COVID-19

Cymerwch ran yn yr  
arolwg cenedlaethol mwyaf  
o heintiau COVID-19 presennol  
ac yn y gorffennol.



Cyswllt yr astudiaeth:  
**0800 917 9323**



Cymerwch ran yn yr **arolwg cenedlaethol mwyaf o heintiau COVID-19** presennol ac yn y gorffennol.

Bydd eich cymorth yn **helpu i lywio'r ymateb i'r pandemig hwn**, er mwyn i ni gyd fynd yn ôl i fywyd arferol.



[cy.ons.gov.uk/cis](https://cy.ons.gov.uk/cis)

## Pam rydych chi wedi gofyn i mi gymryd rhan?

Er mwyn helpu'r frwydr barhaus yn erbyn y coronafeirws mae angen cartrefi fel eich un chi arnom ni i **ymuno â'r miloedd sydd eisoes yn cymryd rhan yn Arolwg Heintiadau COVID-19**.

Nid dim ond profi pobl sydd ag arwyddion o'r feirws, fel twymyn neu beswch, yr ydym ni oherwydd rydym ni'n gwybod y gall **pobl gael y feirws heb symptomau weithiau**.

**🔒 Eich dewis chi yw cymryd rhan yn yr astudiaeth hon.** Mae'r holl wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi i ni wedi'i diogelu gan y gyfraith a chaiff ei thrin yn gyfrinachol.

Gall pawb yn yr arolwg dderbyn brechiad COVID-19 pan fyddant yn gymwys i wneud hynny – a gall pobl sydd wedi derbyn brechiad COVID-19 fod yn yr arolwg.

## Beth yw'r arolwg?

Nod yr arolwg yw darganfod **faint o bobl sydd â COVID-19, naill ai gyda symptomau neu hebddynt**.

- Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i fwy o bobl ddechrau cael eu brechu rhag COVID-19. Er bod y brechlynnau'n gweithio'n dda iawn, nid ydyn nhw'n atal pobl rhag cael y feirws yn llwyr eto ac nid yw'r naill na'r llall wedi cael COVID-19 yn y gorffennol. Mae angen i ni fonitro pa mor dda y mae'r brechlynnau'n gweithio yn y byd go iawn, a pha mor dda y mae'r cyfuniad o bobl wedi cael COVID-19 o'r blaen a chael eu brechu y atal y feirws rhag lledaenu.
- Nod yr arolwg hefyd yw darganfod faint o bobl a allai fod wedi cael COVID-19 eisoes. Caiff hyn ei wneud drwy fesur y lefelau o wrthgyrff yn eu gwaed.
- Ers mis Ebrill 2020, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Phrifysgol Rhydychen wedi bod yn cynnal yr arolwg ar ran Llywodraethau'r Deyrnas Unedig.

## Beth mae cymryd rhan yn yr arolwg yn ei olygu?

- **Yn gyntaf, bydd angen i chi gofrestru i gymryd rhan**, ac ar ôl hynny bydd rhywun yn cysylltu â chi i wneud apwyntiad.
- Yn yr apwyntiad hwn, bydd aelod o dîm yr arolwg yn dod i'ch cartref. Bydd yn gofyn rhai cwestiynau am bob unigolyn dros 2 oed sydd am gymryd rhan.
- Bydd yn dangos i'r rhai sy'n 12 oed neu drosodd sut i **gymryd swabiau gwddf a thrwyn a gaiff eu profi am y feirws**. Sbwng meddal ar ffon yw'r swab ac nid yw'n boenus. Gall rhieni neu ofalwyr helpu plant o dan 12 oed.
- Hoffem hefyd gymryd rhywfaint o waed oddi wrth unrhyw un sy'n 16 oed neu drosodd. **Nid oes rhaid i chi gytuno i hyn**. Bydd gwaed naill ai'n cael ei gymryd yn uniongyrchol o wythien gan aelod o dîm arolwg hyfforddedig gydag offer amddiffyn personol, neu o pigiad bys a wneir gan yr unigolyn ei hun. Ni fydd aelod o dîm yr arolwg yn dod i mewn i'ch cartref oni bai bod angen iddo gymryd gwaed o wythien.

### Gallech chi gytuno i:

- A** un ymweliad yn unig
- B** yr ymweliad cyntaf ac ymweliad bob wythnos am fis (**cyfanswm o 5 ymweliad**)
- C** yr ymweliad cyntaf, ymweliad bob wythnos am fis, ac yna ymweliadau misol tan Ebrill 2022 (**cyfanswm o 16 o ymweliadau o leiaf, yn dibynnu pryd rydych chi'n ymuno â'r arolwg**)



## Pam y dylwn i gymryd rhan?



Mae'r coronafeirws yn parhau i effeithio ar bob un ohonom. **Gyda'n gilydd, gallwn ni ddarparu gwybodaeth** hanfodol i helpu i lywio'r ymateb i'r pandemig hwn, er mwyn mynd yn ôl i fywyd arferol.

Bydd cael darlun cyflym a dibynadwy o heintiau yn eich ardal yn helpu **i wneud yn siŵr bod ymatebion lleol yn briodol ac yn effeithiol**.

Dros 2021 a 2022, bydd miloedd o gartrefi yn cymryd rhan yn yr arolwg. **Mae hyn er mwyn i ni allu gweld beth sy'n digwydd i'r feirws dros y cyfnod hwn**, yn enwedig wrth i fwy o bobl gael eu brechu.

Mae'r canlyniadau eisoes yn cael eu rhannu fel bod pawb yn gwybod beth rydym ni'n ei ddysgu (<https://www.ndm.ox.ac.uk/covid-19/covid-19-infection-survey/results>). Ni fydd y wybodaeth hon yn eich enwi chi na'ch teulu.

## Sut i gymryd rhan:

I gymryd rhan, bydd angen i chi **gofrestru â ni cyn gynted â phosibl:**

1 Ffoniwch y tîm cofrestru ar **0800 917 9323**.

Os na allwch chi ddefnyddio'r ffôn, er enghraifft oherwydd nam ar eich clyw neu'ch lleferydd, gallwch chi anfon e-bost i **iqvia.arolwgCovid19@nhs.net**.



2

Ar ôl i chi gofrestru, y tro nesaf y byddwch yn clywed gennym yw pan fydd aelod o dîm yr arolwg yn cysylltu â chi y noson cyn eich ymweliad arfaethedig. Os nad yw'r amser hwn yn gyfleus i chi, gallwch ei newid. Byddwn yn ceisio cysylltu â chi yn ystod yr wythnos ar ôl i chi gofrestru.



3

Ar ddiwrnod eich apwyntiad, bydd aelod o dîm yr arolwg yn ymweld â'ch cartref er mwyn cwblhau'r ymweliad. Bydd unrhyw aelod o'r tîm sy'n cymryd gwaed o wythien yn gymwysedig i wneud hynny. Peidiwch â gwahodd aelod o dîm yr arolwg i'ch cartref oni bai ei fod yn cymryd gwaed.



4

I ddangos ein gwerthfawrogiad, **bydd pawb sy'n cwblhau'r arolwg yn cael cynnig taleb gwerth £50.**



## Beth fyddaf yn ei gael am gymryd rhan?

Bydd pob unigolyn sy'n cymryd rhan yn yr arolwg **yn cael taleb gwerth £50 am yr ymweliad cartref cyntaf a gwblheir.**

Am bob ymweliad arall a gwblheir, **bydd pob un yn cael taleb gwerth £25.**

**Dim ond am yr ymweliadau a gaiff eu cwblhau y bydd hyn;** er enghraifft, os bydd yr arolwg yn dod i ben **ni fydddech yn cael eich talu am ymweliadau nad ydynt yn digwydd.**

## Beth fydd yn digwydd gyda fy nata?

- Mae unrhyw wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi i ni wedi'i diogelu gan y gyfraith a chaiff ei thrin yn gyfrinachol.
- Caiff yr holl samplau eu casglu ar ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Phrifysgol Rhydychen.
- Caiff yr holl brofion ar y samplau hyn eu gwneud gan Brifysgol Rhydychen a labordai Lighthouse cenedlaethol.
- Byddwch chi'n cael gwybod am ganlyniadau'r holl brofion y byddwch yn eu cwblhau.
- Bydd y cwmnïau sy'n rhan o gynnal yr arolwg ond yn defnyddio eich gwybodaeth at ddibenion yr arolwg hwn – **darllenwch y Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr am ragor o fanylion.**



# Gwybodaeth bellach a gwefannau defnyddiol:

Mae rhai cyfieithiadau o'r crynodeb hwn a gwybodaeth arolwg arall ar gael ar <https://www.ons.gov.uk/surveys/informationforhouseholdsandindividuals/householdandindividualsurveys/covid19infectionsurveycis/furtherhelp#study-materials-in-other-languages>

I ddysgu mwy, darllenwch y daflen wybodaeth fanwl i gyfranogwyr a ddaeth gyda'r daflen hon, neu ewch i [cy.ons.gov.uk/cis](https://cy.ons.gov.uk/cis) neu [llyw.cymru/arolwgheintiadaucovid](https://llyw.cymru/arolwgheintiadaucovid)

Os oes unrhyw rai o'r materion a godir yn y daflen hon yn effeithio arnoch chi neu os ydych chi'n chwilio am wybodaeth am COVID-19, ewch i:

- Coronavirus explained:  
<https://coronavirusexplained.ukri.org/en/>
- Canllawiau'r llywodraeth:  
<https://llyw.cymru/coronafeirws>
- Cyngor y GIG:  
<https://llyw.cymru/coronafeirws>
- Y Samariaid - Cymorth emosiynol i bawb:  
[www.samaritans.org](http://www.samaritans.org)
- Mind - Cyngor a chymorth i unrhyw un sydd â phroblem iechyd meddwl: [www.mind.org.uk](http://www.mind.org.uk)

## Crynodeb o'r astudiaeth

### Arolwg heintiadau COVID-19

Fersiwn 7.0 Dyddiad: 1 Chwefror 2021

Cyf Moeseg: 20/SC/0195 | Rhif Adnabod Prosiect IRAS: 283248

Prif Ymchwilydd: Yr Athro Ann Sarah Walker